

Minutes of the **Planning & Amenities Committee** Meeting held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, on **Monday 24th June 2019** at 6.30pm.

PRESENT :- His Worship the Mayor, Councillor John Wyn Williams
The Deputy Mayor, Councillor Owen Hurcum
Councillors :- G O Roberts (Chairman) D Hainge N Pickavance
Les Day J Martin Gareth Roberts
D Fearnley Enid Parry L Tugwell

Officer: Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

39/19 APOLOGIES

Apologies for absence were received from, Councillors M Hughes, Ifan James, Keith Jones, John Wynn Jones, Mair Rowlands Elin Walker Jones and H Wyn Jones.

40/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

None.

41/19 URGENT BUSINESS

Resignation – The Town Clerk reported that Salik Rahman, Councillor for the Deiniol Ward had tendered his resignation. Salik thanked the Council for the opportunity to represent the Ward and for all at the Council for their help and advice. The Town Clerk would now make appropriate arrangements with the County Council’s Electoral Office.

42/19 CLIMATE CHANGE PRESENTATION

The City Council received a presentation on and the background to the recent Climate Change issues raised both nationally and locally. Meg Baker and Mark Barrow from Bangor University spoke on this subject matter. They explained the international position and what local Councils could do to help reduce pollution and the carbon footprint of its actions.

Members responded by expressing their own concerns on the impact that society was having on the climate and pollution in the air and in the oceans. The Deputy Mayor agreed to some work on the preparation of a Notice of Motion for consideration at a future meeting of the full Council.

The Chairman thanked the presenters for their very informative and enlightening participation at the Meeting.

43/19 PLANNING APPLICATIONS

RESOLVED: that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below:-

Planning Pre-Application Consultation - Relocation of Coleg Menai to Ty Menai, Parc Menai.

Members considered the pre-application documents and noted that a public consultation event had been held on 20 June.

RESOLVED: that the following concerns be highlighted:-

- Public transport to new site not easy
- Removal of an educational establishment from within the City Centre
- What carbon footprint would be left as a result of the move
- What would become of the vacated building

C19/0511/11/LL Conversion of dwelling into 2 self-contained residential units. 14 Ffordd Deiniol. **Objection due to lack of parking facilities in the area.**

C19/0525/11/LL Amend condition number 2 of planning permission reference C19/0034/11/LL so as to replace the “juliet balcony with a larger balcony. 5 Garth Terrace, Siliwen Road. **Objection as the proposal is not in keeping with other properties in the area and there is no requirement to change the original condition.**

C19/0553/11/LL Extension to existing garage to create an MOT bay, demolish Harlech Design Studio building so as to create parking spaces. Bangor Tyre Service, Caernarfon Road. **No objection.**

C19/0557/11/CT Fell an ash tree within a conservation area. Llain Deiniol, Lon Cariadon. **No objection subject to inspection and agreement by the County Council’s Tree Officer. Should the tree require felling it is requested that a similar semi-mature tree be planted in the vicinity.**

C19/0444/11/LL Conversion and change of use of rear part of former Debenhams shop into 6 living units (5 x 1 bedroom and 1 x 2 bedroom). 196-200 Stryd Fawr. **No objections but the City Council would like to see more two-bedroomed flats in these types of developments.**

C19/0443/11/CR Internal and external alterations to convert rear part off former Debenhams shop into 6 lving units.196-200 Stryd Fawr. **No objections but the City Council would like to see more two-bedroomed flats in these types of developments.**

44/19 HIGHWAY MATTERS

Carriageway resurfacing work – Asda to Farrar Road and Mount Street Closure - **Received and Noted.**

45/19 LICENSING MATTERS

None.

The meeting finished at 7.45 pm.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, **Nos Lun, 24^{ain} o Fehefin 2019** am 6.30 y.h.

YN BRESENNOL:-

Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd John Wyn Williams			
Dirprwy Faer, y Cynghorydd Owen Hurcum			
Cynghorwyr	G O Roberts (Cadeirydd)	D Hainge	N Pickavance
	Les Day	J Martin	Gareth Roberts
	D Fearnley	Enid Parry	L Tugwell

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

39/19 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan, y Cynghorwyr M Hughes, Ifan James, Keith Jones, John Wynn Jones, Mair Rowlands, Elin Walker Jones a H Wyn Jones.

40/19 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

41/19 MATERION BRYS

Ymddiswyddiad – Adroddodd Clerc y Dref fod Salik Rahman, Cynghorydd Ward Deiniol wedi cyflwyno'i ymddiswyddiad. Roedd Salik yn diolch i'r Cyngor am y cyfle i gynrychioli'r Ward ac i bawb yn y Cyngor am eu cymorth a'u cyngor. Byddai Clerc y Dref yn gwneud y trefniadau priodol gyda Swyddfa Etholiadol y Cyngor Sir.

42/19 CYFLWYNIAD AR NEWID HINSAWDD

Cafodd Cyngor y Ddinas gyflwyniad ar gefndir y materion Newid Hinsawdd diweddar a godwyd yn genedlaethol ac yn lleol. Roedd Meg Barker a Mark Barrow o Brifysgol Bangor yn bresennol i siarad am y pwnc hwn. Fe egluron nhw'r sefyllfa ryngwladol a'r hyn y gallai Cynghorau lleol ei wneud i helpu i leihau llygredd ac ôl-troed carbon eu gweithredoedd.

Ymatebodd yr Aelodau drwy fynegi eu pryderon eu hunain am yr effaith yr oedd cymdeithas yn ei chael ar yr hinsawdd ac ar lygredd yn yr aer ac yn y moroedd. Cytunodd y Dirprwy Faer wneud rhywfaint o waith ar baratoi Rhybudd Cynnig i'w ystyried mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau am eu rhan yn y Cyfarfod a fu'n addysgiadol ac yn agoriad llygad.

43/19 CEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD: Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod:-

Ail-leoli Campws Coleg Menai Bangor i Dy Menai, Parc Menai. Cyhoedduswydd ac Ymgynghori cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Bu'r Aelodau'n ystyried y dogfennau cyn gwneud cais a nodwyd fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gynnal ar 20 Mehefin.

PENDERFYNWYD tynnu sylw at y pryderon canlynol:-

- Nid yw trafndiaeth gyhoeddus i'r safle newydd yn hawdd
- Tynnu sefydliad addysgol o Ganol y Ddinas
- Beth fyddai'r ôl-troed carbon o ganlyniad i'r symud
- Beth fyddai'n dod o'r adeilad gwag

C19/0511/11/LL Addasu tŷ i 2 uned breswyl hunangynhaliol. 14 Ffordd Deiniol. **Gwrthwynebiad oherwydd y diffyg cyfleusterau parcio yn yr ardal.**

C19/0525/11/LL Diwygio amod rhif 2 o ganiatâd cynllunio rhif C19/0034/11/LL er mwyn disodli'r balconi "juliet" gyda balconi mwy o faint. 5 Garth Terrace, Ffordd Siliwen. **Gwrthwynebiad gan nad yw'r cynnig yn cyd-fynd â'r tai eraill yn yr ardal ac nid oes gofyniad i newid yr amod gwreiddiol.**

C19/0553/11/LL Estyniad i'r modurdy presennol ar gyfer bae MOT, dymchwel adeilad Harlech Design Studio er mwyn creu llecynnau parcio. Bangor Tyre Service, Ffordd Caernarfon. **Dim gwrthwynebiad.**

C19/0557/11/CT Torri coeden onnen o fewn ardal gadwraeth. Llain Deiniol, Lôn Cariadon. **Dim gwrthwynebiad yn amodol ar archwiliad a chytundeb gan Swyddog Coed y Cyngor Sir. Pe bai angen torri'r goeden, gofynnir fod coeden led-aeddfed debyg yn cael ei phlannu gerllaw.**

C19/0444/11/LL Trosi a newid defnydd rhan cefn o'r cyn siop Debenhams yn 6 uned byw (5 x 1 ystafell wely ac 1 x 2 ystafell wely) / 196-200 Stryd Fawr. **Dim gwrthwynebiad ond hoffai Cyngor y Ddinas weld mwy o fflatiau dwy ystafell wely yn y mathau hyn o ddatblygiad.**

44/19 MATERION PRIFFYRDD

Gwaith ail-wynebu'r Ffordd - Asda i Ffordd Farrar a chau Mount Street- **Derbyniwyd a Nodwyd.**

45/19 MATERION TRWYDDEDU

Dim.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.45 pm.